| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Cyfarfod:** | **Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd** |
| **Dyddiad:** | **27 Tachwedd 2018** |
| **Teitl yr adroddiad:** | **Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol – Adroddiad Blynyddol Drafft ar gyfer 2019/20** |
| **Adroddiad gan:** | **Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd** |
| **Pwrpas yr Adroddiad:** | **Adroddiad ar gynigion drafft y Panel ar gyfer 2019/20** |

## 1.0 Cefndir

Mae Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol (y Panel) yn annibynnol ar lywodraeth ganolog a lleol ac fe'i sefydlwyd yn y lle cyntaf i benderfynu ystod a lefelau lwfansau sy'n daladwy i gynghorwyr cynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol ac i aelodau cyfetholedig â hawliau pleidleisio. Bob blwyddyn, mae'n rhaid i'r Panel lunio Adroddiad Blynyddol sy'n nodi'r math a'r lefelau o daliadau y mae awdurdodau'n gallu neu'n gorfod eu gwneud i'w haelodau ac i aelodau cyfetholedig.

Mae Adroddiad Blynyddol Drafft y Panel ar gyfer 2019/20 wedi'i gyhoeddi ar gyfer ymgynghoriad, sy'n cau ar 27 Tachwedd 2018. Cyhoeddir yr adroddiad terfynol ym mis Chwefror 2019.

Mae'r Arweinyddion Grwpiau wedi cael gwybod am y newidiadau arfaethedig sy'n effeithio ar yr Awdurdod hwn, fel yr amlinellir isod:

## 2.0 Cyflog Sylfaenol

**£13,868** fydd y cyflog sylfaenol yn 2019/20 ar gyfer aelodau etholedig prif gynghorau**.** Bydd hyn yn gynnydd o £268 y flwyddyn, sy'n cyfateb i 1.97% ac yn adfer lefel y cyflog sylfaenol i'r swm a dalwyd yn 2011.

## 3.0 Uwch Gyflogau

### 3.1 Nifer yr uwch gyflogau

Bydd y cyfyngiad ar nifer yr uwch gyflogau sy'n daladwy yn parhau, sef cyfanswm o 16 i Ynys Môn, gan gynnwys cyflogau dinesig.

### 3.2 Taliadau i'r Pwyllgor Gwaith

Bydd yna gynnydd o £800 i aelodau'r Pwyllgor Gwaith, sy'n cynnwys y cynnydd o £268 i'r cyflog sylfaenol. Nid yw'r Panel wedi cynyddu'r uwch-gyflogau sy'n cael eu talu i ddeiliaid y swyddi hyn ers chwe mlynedd.

### 3.3 Cadeiryddion Pwyllgorau ac Arweinydd y Grŵp Gwrthbleidiol mwyaf

Ni fydd cynnydd i uwch gyflog Cadeiryddion Pwyllgorau ac Arweinydd y Grŵp Gwrthbleidiol mwyaf, ond mae'r cyfanswm a delir yn adlewyrchu'r cynnydd o £268 i'r cyflog sylfaenol.

### 3.4 Bandiau Uwch Gyflog

| **Uwch Gyflogau 2019/20 (sy'n cynnwys y cyflog sylfaenol):** | | |
|---|---|---|
| **Band 1** | Arweinydd<br>Dirprwy Arweinydd | **£44,100**<br>**£31,100** |
| **Band 2** | Aelodau o'r Pwyllgor Gwaith | **£27,100** |
| **Band 3** | Cadeiryddion Pwyllgorau (os y'u telir) | **£22,568** |
| **Band 4** | Arweinydd y grŵp gwrthbleidiol mwyaf | **£22,568** |
| **Band 5** | Arweinydd grŵp gwrthbleidiol arall* | **£17,568** |

### 3.5 Cyflogau Dinesig

Ar gyfer 2018/19, penderfynodd y Cyngor y dylid talu cyflogau dinesig lefel 3 i'r Pennaeth Dinesig a'r Dirprwy Bennaeth Dinesig (sef £19,300 a £14,300).

Mae cynghorau wedi dweud yn gadarn wrth y Panel nad yw aelodau etholedig yn dymuno gwneud unrhyw ddewisiadau sy'n gofyn i'r cynghorau eu hunain gyfateb lefel gweithgareddau neu ddyletswyddau aelod penodol â lefel o gyflog ar gyfer y rôl. Mae pob dewis o'r fath bellach wedi'u dileu. Ar gyfer 2019/20, mae'r Panel wedi penderfynu ei bod yn rhaid talu cyflog:

**£22,568 (**Band 3) i bennaeth dinesig (pan fo'n cael ei dalu) a

**£17,568** (Band 5) i ddirprwy bennaeth dinesig (pan fo'n cael ei dalu).

## 4.0 Parcio Ceir Aelodau (Newydd)

Mae gan nifer o gynghorau drefniadau penodol ar gyfer eu haelodau o ran parcio ceir. Mae'r Panel o'r farn mai mater i gynghorau unigol yw penderfynu ar drefniadau gan gynnwys taliadau i a gan aelodau, ar yr amod ei fod yn benderfyniad ffurfiol gan y cyngor.

## 5.0 Argymhelliad

Gofynnir i'r Pwyllgor ystyried y penderfyniadau drafft o fewn adroddiad Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol ar gyfer 2019/20 ac os yw'r Pwyllgor yn dymuno ymateb i'r ymgynghoriad.

**Huw Jones**
**Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd**
**19/11/18**

Papur cefndirol:- Adroddiad Blynyddol Drafft Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol 2019/20: https://gov.wales/docs/dsjlg/publications/181002-irp-draft-report-cy.pdf